**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 22 Medi 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P R Hood-Williams | Y V Jardine |
| M Jones | G J Tanner | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |

Hefyd yn bresennol:
Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S J Gallagher, E T Kirchner, H Lawson a/ac L V Walton

---

## 15 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 16 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi – Pobl a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

## 17 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd y Cadeirydd, yn absenoldeb Gavin Evans, y Prif Swyddog ar gyfer Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc fel a ganlyn:

- Roedd y Fforwm Gofalwyr Ifanc ar waith a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf;
- Nid oedd y Cadeirydd wedi gallu mynd i gyfarfod mis Awst, ond fe'i gwahoddwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod mis Medi i

amlinellu sut y gallai'r Fforwm Gofalwyr Ifanc lywio'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc;

- Aeth y Cadeirydd hefyd i gyfarfod y Grŵp Llywio Gofalwyr Ifanc ar ddechrau mis Medi;
- Byddai'r Prif Swyddog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ym mis Hydref.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai unrhyw Gynghorydd a oedd yn dymuno mynd i gyfarfodydd Gofalwyr Ifanc neu sydd am gymryd rhan ehangach gysylltu â Gavin Evans a fyddai'n darparu dyddiadau'r cyfarfodydd perthnasol.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

**18 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Diweddariad Llafar)**

Rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion, gyda chefnogaeth Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA) ddiweddariad llafar ar Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.

Yn anffodus, ni chynhaliwyd y gweithdy y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod diwethaf, ond byddai dyddiad yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r defnydd o'r cyllid gwirfoddoli rhanbarthol sydd dros ben i gynorthwyo partneriaid yng Nghyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Rheolwr Prosiect Rhanbarthol a hefyd i ailgomisiynu'r gwaith gyda'r gwerthuswr allanol.

Esboniodd Julia Manser fod rôl Rheolwr Prosiect Rhanbarthol prosiect Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg wedi'i rhannu rhyngddi hi a Gemma Richards o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd/Port Talbot.

Esboniodd fod yr eitem waith ranbarthol gyffrous hon eisoes wedi dechrau gyda'r Tîm Trawsnewid Rhanbarthol a phartneriaid allanol eraill. Byddai'r gwaith yn parhau tan 31 Mawrth 2022 a byddai'n canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Gwirfoddoli a/neu fframwaith i ystyried sut y gellid datblygu gwirfoddoli yn rhanbarthol. Yn dilyn llwyddiant yr ymateb i COVID-19 byddent yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ac yn datblygu prosesau'n rhanbarthol i allu ymdrin ag argyfyngau yn y dyfodol pan fyddant yn codi.

Mewn perthynas â’r adnoddau a ddatblygwyd yng Ngham 1, byddai Cam 2 yn adeiladu ar y datblygiad hwnnw a'r gobaith oedd datblygu taflenni gwybodaeth ar "A yw'n wirfoddoli neu'n brofiad gwaith?" ac "A yw'n wirfoddoli neu'n lleoliad?" Byddai gwaith hefyd yn dechrau er mwyn datblygu adnodd i gefnogi gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal.

Esboniodd Amy Hawkins y byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn rhanbarthol yn adeiladu ar Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe ac yn ei helpu.

Amlinellodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion egwyddorion allweddol y Strategaeth a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Adborth gan y gwirfoddolwyr hynny sy’n gweithio gyda Chyngor Abertawe ar hyn o bryd;
- Fersiwn ddigidol o'r strategaeth, cyfweliadau fideo a dolenni i fanteision gwirfoddoli;
- Manylion y daith yn ystod y pandemig, y defnydd o wirfoddolwyr a pha effaith y cafodd hyn arnom ni fel sefydliad ac ar gymunedau;
- Gweledigaeth ac amcanion allweddol – byddai hyn yn cynnwys y gweithdy gyda swyddogion ac aelodau'r pwyllgor;
- Byddai gwaith yn parhau gyda mapio gwirfoddolwyr i sicrhau bod llinell sylfaen o wirfoddolwyr a chyfleoedd o fewn y sefydliad;
- Byddai'r strategaeth yn canolbwyntio ar fanteision gwirfoddoli ar ei ffurfiau niferus ac amodau cefnogi gwirfoddolwyr, ffurfiau safonedig, sefydlu, goruchwyliaeth etc. a sut y byddai'n cael ei wneud yn gyson.
- Hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr a'r rheolwyr hynny a oedd yn cefnogi gwirfoddolwyr.
- Statws gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai tymor hir gan gynnwys y geirdaon rydym yn eu darparu, hyfforddiant a chymorth;
- Llinell sylfaen o wirfoddolwyr i asesu'r strategaeth ac effaith y strategaeth;
- Nodi pwysau fel y gallai gwirfoddolwyr gynorthwyo yn ystod cyfnodau anodd;

Y camau nesaf fyddai:

- Gweithdy gyda swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl drwy ymagwedd gydgynhyrchiol;
- Gwaith cefndir mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth gan gynnwys AD, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, etc.
- Mapio pa randdeiliaid eraill y dylid eu cynnwys wrth sicrhau bod cynrychiolwyr o wahanol grwpiau sy’n cynnwys nodweddion gwarchodedig;
- Gwaith ar waith papur safonol yn seiliedig ar arfer da.

Esboniodd Julia Manser, er bod hwn yn ddarn mawr iawn o waith, ei fod wedi cael ei wneud yn llwyddiannus mewn gwahanol gynghorau, gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy. Esboniodd mai'r canlyniad a fwriadwyd oedd y byddai nifer y gwirfoddolwyr yn cael eu cofnodi i ganfod pwy oedd yn gwneud beth er mwyn ychwanegu gwerth at ymrwymiad y gwirfoddolwyr.  Gellid defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn fwy cywir wrth gefnogi'r gwirfoddolwyr yn foesegol. Roedd yn bwysig sefydlu llinell sylfaen a safon ddiogelu o ansawdd da ymhlith y gwirfoddolwyr, gan eu bod yn cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Roedd rheoli gwirfoddolwyr yn wahanol iawn i reoli staff a byddai angen hyfforddi staff perthnasol i reoli gwirfoddolwyr.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r diweddariad llafar;
2) Y caiff gweithdy (swyddogion a'r Pwyllgor) ei sefydlu cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl nesaf a drefnwyd ar gyfer 26 Hydref 2021.

**19 Cyngor Abertawe - Darpariaeth Cyflogadwyedd. (Diweddariad Llafar)**

Rhoddodd Elliott Williams, Rheolwr Cyllid Allanol, ddiweddariad llafar ar Ddarpariaeth Cyflogadwyedd Cyngor Abertawe.

Esboniodd fod prosiect Cam Nesa a gyflwynwyd yn flaenorol gan Gyngor Abertawe bellach wedi dod i ben a'u bod wrthi'n cwblhau'r prosiect ac yn cyflwyno'r hawliadau terfynol i'r corff ariannu. Roedd y prosiect wedi cefnogi'r rheini sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad gyflogaeth ac roedd yn brosiect a ariannwyd gan Ewrop a ddarparwyd ar y cyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid. Yn ystod oes y prosiect, roedd dros 620 o bobl ifanc wedi cael cymorth gyda 130 o'r rheini’n cael gwaith.

O ran y bwlch yn y ddarpariaeth y byddai'r prosiect yn ei greu, roeddent yn ceisio defnyddio cyllid a oedd ar gael o hyd yn ein gwasanaethau a byddent yn parhau i archwilio cyfleoedd grant eraill pan fyddant yn codi.

Roedd Asesiad Effaith yn cael ei ddatblygu a byddai'n adrodd ar y rhain mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn y dyfodol.

Aeth y Rheolwr Ariannu Allanol ymlaen i ddweud bod y mentoriaid cyflogadwyedd a'r swyddogion cyswllt wedi ailddechrau eu gwaith yn y gymuned (a aseswyd ar gyfer risg) ac roedd pob swyddog wedi bod yn gweithio gyda swyddogion cyfathrebu er mwyn ceisio creu rhagor o fewnbwn.

O ran prosiectau cyflogadwyedd yn y dyfodol, roeddent yn ymchwilio i brosiectau eraill gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) neu drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU ac roeddent yn aros am ymateb i gais a oedd eisoes wedi'i gyflwyno. Byddai rhan o'r cais hwnnw'n darparu adnoddau i ddarparu elfen o gefnogaeth i'r garfan y byddai Cam Nesa wedi'i chefnogi o'r blaen. Byddai cyfleoedd hefyd yn y dyfodol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mewn perthynas â'r 6 phrosiect cyflogadwyedd a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol, roedd dros 1,200 o bobl wedi cael cymorth yn ystod y pandemig ac roedd dros 500 wedi’u cefnogi i gael gwaith.

Amlinellodd fanylion mewn perthynas â'r ddarpariaeth *Kickstart*, prosiect gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a weinyddir gan Gyngor Abertawe fel porth ac fel cyflogwr. Esboniodd mai'r porth oedd lle'r oeddem wedi sefydlu lleoliadau â thâl gyda busnesau allanol ac arbenigwyr materion pwnc (BBaCh), wrth i ni fel cyflogwr sefydlu lleoliadau ein hunain o fewn y cyngor. Hyd yma roedd 260 o leoliadau wedi'u sefydlu gyda 32 o gyflogwyr ac roedd 60 o leoliadau mewnol wedi'u sefydlu. Ar unrhyw un adeg roedd 50 o leoliadau mewn bodolaeth, sy'n cynnwys pobl ifanc 16-24 oed a oedd wedi elwa o leoliadau 25 awr yr wythnos â thâl llawn. Mae'r broses hon wedi rhoi profiad gwerthfawr iddynt o fewn y maes gwaith o'u dewis. Roedd lleoliadau wedi'u creu yn y Gwasanaethau Adeiladau, yr adran Parciau a Rheoli Gwastraff yn ogystal ag amrywiaeth o leoliadau gyda gwahanol sectorau allanol. Y gobaith oedd y byddai lleoliadau gwaith hefyd yn cael eu creu o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O ran y sefyllfa bresennol, roedd y sefyllfa mewn perthynas â chyflogadwyedd wedi newid dros y 18 mis diwethaf. Byddai ffyrlo yn dod i ben ar ddiwedd y mis ac er bod digonedd o swyddi gwag, nid oeddent yn gweld llawer o bobl yn cymryd rhan yn y broses er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn. Esboniodd fod partneriaid allanol eraill a'r Ganolfan Waith hefyd yn dod ar draws yr un problemau.

Fel yr adroddwyd yn ddiweddar, roedd prinder yn y meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, manwerthu, lletygarwch, adeiladu ac mewn perthynas â'r prinder gyda gyrwyr HGV, roeddent ar hyn o bryd yn ymchwilio i rywfaint o gyllid a allai fod ar gael i'r rheini sy'n gymwys, ond cydnabu ei fod yn dal yn eithaf drud. Roedd cysylltiadau wedi'u gwneud â gwahanol gwmnïau HGV mewn ymgais i lenwi'r bylchau.

Aeth ymlaen i ddweud bod cymorth ar waith, pe bai ymchwydd o bobl yn dod drwy'r system pan ddaw ffyrlo i ben a byddai angen iddynt fod yn rhagweithiol i hyrwyddo'r prosiectau a'r cyfleoedd perthnasol. O ganlyniad, roedd gwaith wedi'i wneud gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (PDSRh) er mwyn sefydlu digwyddiadau yng Nghaerfyrddin ac Abertawe i hyrwyddo cyfleoedd a datblygu rhai llwybrau ar gyfer y rheini a oedd am wneud cais.

Yn ogystal, roedd mentrau eraill fel ffair recriwtio ar gyfer ATG sef gweithredwyr yr arena newydd ac roedd gwaith pellach o ran datblygu rhaglenni llwybrau amrywiol yn parhau.

Dylai unrhyw gyflogwr sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o gynllun porth *Kickstart* e-bostioKickstart@abertawe.gov.uk.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

## 20 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith yn amodol ar ychwanegu'r canlynol:

Ychwanegu'r canlynol at yr agenda ar gyfer 27 Hydref 2021:

- Strategaeth Gofalwyr Ifanc (Diweddariad);
- Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe (Diweddariad)

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Gynghorwyr a Swyddogion, yn enwedig y Gwasanaethau Democrataidd am eu hamser a'u cymorth.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.44 pm

**Cadeirydd**